OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 337 (Cy. 48)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Llyn Ogwen, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Aros) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *16 Mawrth 2023* |
| *Yn dod i rym* | *21 Mawrth 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A5, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru ac wedi rhoi hysbysiad o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Llyn Ogwen, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Aros) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Mawrth 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi.

---

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

### Gwahardd aros

**3.** Ac eithrio fel y'i darperir yn erthygl 4, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg, ar unrhyw ddiwrnod, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

### Esemptiadau

**4.** Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 3 cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi—

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(d) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ddarn arall o ffordd, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn—

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r gilfan; neu

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio yn y darn o'r gilfan, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**1**);

(e) cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(f) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darn hwnnw o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddo;

(g) cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol—

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo wneud hynny;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

---

(**1**) 2003 c. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth; neu

(iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 16 Mawrth 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 66 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n gyfagos i Fwthyn Ogwen hyd at bwynt 2,447 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 66 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n gyfagos i Fwthyn Ogwen hyd at bwynt 1,339 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1,475 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n gyfagos i Fwthyn Ogwen hyd at bwynt 1,995 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.